**ELL 2-00(min)**

**Cofnodion y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes**

**Dyddiad:** Dydd Gwener 17eg Tachwedd, 2000

**Amser:** 9.00 am

**Lleoliad:** Siambr Cyngor Sir Ceredigion, Aberaeron

| | | |
|---|---|---|
| Cynog Dafis, Cadeirydd | Plaid Cymru | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Lorraine Barrett | Llafur | De Caerdydd a Phenarth |
| Jane Davidson, Gweinidog y Cynulliad | Llafur | Pontypridd |
| Christine Humphreys | Democratiaid Rhyddfrydol | Gogledd Cymru |
| Pauline Jarman | Plaid Cymru | Canol De Cymru |
| Gareth Jones | Plaid Cymru | Conwy |
| Huw Lewis | Llafur | Merthyr Tudful a Rhymni |

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor :**

| | |
|---|---|
| Delyth Thomas | Clerc y Pwyllgor |
| Brian Duddridge | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |
| Gareth Woodhead | Ysgrifenyddiaeth |
| Dan Collier | Ysgrifenyddiaeth |

**Swyddogion :**

| | |
|---|---|
| Ann MacGregor | Yr Is-adran Rheoli Ysgolion |

**Ymddiheuriadau :**

Janice Gregory

Jonathan Morfan

Alun Pugh

**Datganiadau o Fuddiant :**

| | |
|---|---|
| Gareth Jones | Aelod o Gyngor Bwrdeistref Conwy |
| Cynog Dafis | Athro Cofrestredig |
| Jane Davidson | Athrawes Gofrestredig |
| Pauline Jarman | Arweinydd Cyngor Rhondda Cynon Taf |
| Huw Lewis | Athro Cofrestredig |

**Sylwadau Agoriadol**

Er nad oedd y cyfarfod yn cael ei gynnal yn Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol, tynnodd y Cadeirydd sylw at y ffaith ei fod yn gyfarfod ffurfiol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac y byddai'r rheolau ymddygiad ac ymarweddiad arferol yn sefyll. Yr oedd cyfleusterau cyfieithu ar gael.

**Eitem 1 ar yr Agenda : Adolygiad Polisi – Darparu Lleoedd mewn Ysgolion**

***Papur: ELL 2-00 (p.1) ac ELL 2-00(p.2)***

1.1 Eglurodd y Cadeirydd i'r adolygiad gael ei sefydlu gan y Pwyllgor Addysg Cyn 16 Oed, Ysgolion ac Addysg Gynnar gynt a'i fod bellach yn cael ei dywys yn ei flaen gan y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes. Nodwyd cylch gwaith yr adolygiad ym mhapur 1, daeth y broses ymgynghori i ben ar y 30ain Medi a chafwyd crynodeb o'r ymatebion ym mhapur 1. Eglurai papur 2 sut yr asesir nifer y lleoedd mewn ysgolion gan ddefnyddio fformiwla safonol.

1.2 Y cyfarfod hwn oedd y cyntaf o ddau a fwriadwyd i dderbyn tystiolaeth lafar; byddai cynrychiolwyr y Comisiwn Archwilio, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a Chymdeithas

Genedlaethol yr Ysgolion Bach yn cael 10 munud yn fras i roi eu cyflwyniadau. Wedi hynny, ceid trafodaeth gyda'r Aelodau.

**Y Comisiwn Archwilio:**

***Ian McKinder a Kate Chamberlain, Rheolwyr Archwilio***

2.1 Cyfeiriodd y cynrychiolwyr at gyfres o sleidiau sydd ynghlwm fel **Atodiad A**.

2.2 Tynnodd Ian McKinder sylw at ddau fater allweddol – y ffaith nad yw nifer y disgyblion yn cyfateb i nifer y lleoedd mewn ysgolion sy'n arwain at lefelau uchel o leoedd dros ben (fel a amlygir yn sleid 2) a'r gost fesul disgybl sy'n anghymesur o uchel mewn ysgolion llai (sleid 4). Mae ysgolion cynradd sydd â llai na 90 o ddisgyblion ac ysgolion uwchradd o lai na 600 yn costio mwy i'w cynnal ond nid oedd unrhyw welliant cyfatebol yn y perfformiad. Nid oedd unrhyw gyfatebiaeth rhwng perfformiad a maint ysgolion ar y lefel gynradd; yn yr ysgolion uwchradd llai roedd perfformiad yn dirywio. Pe bai'r lleoedd i gyd yn llawn cydnabu na fyddai yna fawr o ddewis i rieni ac nad oedd y lleoedd a oedd heb eu llenwi i gyd o reidrwydd yn rhai y gellid cael gwared â hwy, ond yr oedd yna arbedion posibl y gellid eu gwneud. Cost pob lle ysgol ar gyfartaledd yw £203 y flwyddyn am bob lle cynradd a £281 am bob lle uwchradd. Rhoddai hyn ffigur o ragor na £100m y flwyddyn yng nghyswllt lleoedd sydd heb eu llenwi yng Nghymru a Lloegr.

2.3 Ymddangosai mai cyfyngedig yw'r ewyllys wleidyddol yn lleol i fynd i'r afael â lleoedd sydd heb eu llenwi er bod rhai awdurdodau yn symud ymlaen. Pe bai lleoedd yn cael eu dileu ac ysgolion yn cael eu cau mewn ardaloedd anghysbell, gallai cymunedau ddioddef. Yr oedd yna hefyd rywfaint o anogaeth i Awdurdodau Addysg Lleol (AALlau) i beidio â rhesymoli'r ddarpariaeth oherwydd y ffordd y mae'r fformiwla cyllido yn gweithredu.

2.4 Yn dilyn dadansoddiad rhagarweiniol a wnaethpwyd yn sgîl cymharu'r archwiliadau o leoedd a oedd heb eu llenwi yn 1997 a'r lleoedd a oedd heb eu llenwi yn 2000, dywedodd Kate Chamberlain y bu yna ostyngiad bychan yn y niferoedd ond bod hwnnw i'w briodoli'n fwy i ostyngiadau yn y cyfrifiadau a wneir o leoedd gwag nag i resymoli nac i gau ysgolion. Dywedodd fod yna bryder ynglyn â chyfrifo nifer lleoedd ar sail cofrestru mwy agored - er bod canllawiau cenedlaethol wedi eu sefydlu nid oeddynt bob amser yn cael eu rhoi ar waith mewn modd cyson. Yr oedd tystiolaeth bod awdurdodau lleol wedi datblygu eu fformiwlâu eu hunain sy'n ymddangos yn fwy cywir, ond nid oedd yr arferion yn cael eu dilysu'n ganolog. Câi archwiliad pellach ei gynnal yng Nghymru yn gynnar y flwyddyn nesaf a byddai hwnnw'n asesu'r ffordd y mae pob awdurdod lleol yn ymdrin â'r mater.

2.5 Ymhlith y pwyntiau a godwyd yn ystod y drafodaeth yr oedd:

- a oedd y Comisiwn yn cymryd materion fel cyfle cyfartal, polisïau cymdeithasol, cynaliadwyedd ayb. i ystyriaeth wrth gynnal archwiliadau ac argymell rhesymoli. Yr oedd yn bwysig bod yr egwyddorion hyn ac egwyddorion eraill y Cynulliad Cenedlaethol yn amlwg mewn bywyd gwaith beunyddiol;

- a oedd defnydd amgen o adeiladau ysgol yn cael ei ystyried fel mater o drefn;
- pa effaith fyddai defnyddio adeiladau ysgol at ddibenion dysgu gydol oes yn ei chael wrth ystyried lleoedd sydd heb eu llenwi;
- i ba raddau yr oedd costau trafnidiaeth i'r ysgol yn cael eu cymryd i ystyriaeth wrth gyfrifo costau lleoedd sydd heb eu llenwi, a hefyd y costau amgylcheddol o gofio'r angen am ddatblygu cynaliadwy;
- a oedd unrhyw ganllawiau ar gael ar sut mae cymryd defnydd y gymuned o ysgolion i ystyriaeth pan fo awdurdodau'n ystyried defnydd ar wahân i ddefnydd yr ysgol o adeiladau ysgol;
- i beth y mae'r Comisiwn yn priodoli perfformiad gwael mewn ysgolion uwchradd bach ac ai canlyniad perfformiad nad yw cystal yw gostyngiad mewn maint;
- mae ysgolion poblogaidd yn ehangu gyda chefnogaeth;
- yr angen i'r fformiwla cyfrifo gael ei diweddaru; ac
- y byddai ysgolion bach yn parhau'n rhan o'r gyfundrefn addysg am beth amser eto, sut y câi eu llwyddiant o ran ychwanegu gwerth at addysg a phrofiad disgybl ei fesur h.y. yn hytrach na llwyddiant ar lefel TGAU.

2.6 Yr oedd y Comisiwn Archwilio yn cymryd blaenoriaethau'r Cynulliad Cenedlaethol i ystyriaeth yn ei waith a hefyd yr holl fuddiannau cymunedol wrth fesur cost cadw ysgolion yn ddichonol, ond cydnabyddai fod yna rôl ehangach a mwy lleol i eraill o'r safbwynt hwn. Lle bo adeiladau ysgol yn cael eu defnyddio at ddefnydd arall, dywedasant y byddai'r gofod hwnnw wedyn yn cael ei dynnu allan o'r mesuriad nifer lleoedd ac na fyddai mwyach yn cael ei gyfrif yn ofod dros ben. Yr oedd ystafelloedd sydd wedi'u haddasu at ddefnydd ysgol ategol ond nid fel ystafelloedd dosbarth (ardaloedd TG, llyfrgelloedd, ystafelloedd adnoddau ayb) hefyd yn gostwng lefel y lleoedd dros ben a fesurir ond yr oedd terfyn ar i ba raddau y mae'n ddoeth ymdopi â lle dros ben fel hyn. Dywedasant fod yr Adran Addysg a Chyflogaeth (DfEE) o'r farn y dylai o leiaf 55-70% o'r gofod mewn ysgol gael ei ddefnyddio fel gofod addysgu.

2.7 Câi trafnidiaeth a chostau amgylcheddol eraill eu cymryd i ystyriaeth pan fyddai cynigion cau neu resymoli yn cael eu cyflwyno gan AALlau, a byddai amgylchiadau lleol yn cael eu cymryd i ystyriaeth. Yr oedd gan Ofsted dystiolaeth, ar draws graddfeydd perfformiad yr ysgolion, fod safonau'n fwy tebygol o ddisgyn ymhellach mewn ysgolion lle'r oedd disgyblion yn ymadael er mwyn mynd i ysgolion y tybir eu bod yn cynnig gwell safon o addysg. Byddai'r ysgolion hynny yn mynd yn llai abl i gynnig rhychwant pynciau'r cwricwlwm yn ei gyfanrwydd a darpariaeth wedi'i seilio ar ansawdd. Yn sicr wedyn gallai ysgolion fynd yn llai am nad yw'r safonau cystal. Yr oedd yn anodd gwybod pa un oedd yr achos a pha un oedd yr effaith mewn senarios o'r fath.

2.8 Tynnai'r adroddiad o dan y teitl *Trading Places* sylw at yr angen i adolygu'r fformiwla cyfrifo. Fodd bynnag, pa fformiwla genedlaethol bynnag a fabwysiadir, tynnodd y cynrychiolwyr sylw at y ffaith y byddai gofyn cymryd amgylchiadau lleol i ystyriaeth bob amser. Byddai'r Comisiwn Archwilio yn ymchwilio i hyn yn y flwyddyn newydd, a byddai hynny'n help i lywio penderfyniadau ynglyn â'r fformiwla.

2.9 Dywedodd y Gweinidog y bydd DfEE yn ymgynghori yn Lloegr yn Ionawr 2001 ar fformiwla

nifer lleoedd ddiwygiedig. Ar yr un pryd byddai’r Cynulliad Cenedlaethol yn ymgynghori ag Awdurdodau Addysg Lleol (AALlau) yng Nghymru i weld a oedd angen newidiadau yma hefyd. Cydnabyddai y byddai yna bob amser anghysondebau lleol, pa fformiwla bynnag a ddefnyddir, a holodd sut y gallai cynlluniau trefniadaeth ysgolion a chynlluniau rheoli asedau helpu i sicrhau a chynnal trefn weithredu gyson. Croesawai’r Comisiwn Archwilio yr awgrym y dylid ymgynghori ag AALlau fel hyn, a hefyd y dylid cadw data’n ganolog er mwyn canfod tueddiadau. Gwahoddodd y Gweinidog y cynrychiolwyr i roi cyngor ynglyn â pha agweddau o’r canllawiau presennol y mae angen eu hadolygu a beth yw’r rhwystrau sy’n ei gwneud yn anodd i awdurdodau addysg lleol resymoli’r ddarpariaeth. Cyfeiriodd Kate Chamberlain at gostau trafnidiaeth, dewis i rieni a lleoliad fel rhai o’r rhwystrau ynghyd ag ystyriaethau gwleidyddol a’r ffaith bod cymunedau lleol yn gwrthwynebu newid. Rhaid oedd cydnabod bod parhau i gynnal ysgolion bach yn costio cyfle.

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru :**

***Peter Tyndall, Pennaeth Addysg, Hyfforddiant a Materion Diwylliannol;***

***Roger Williams, Cyfarwyddwr Addysg, Ceredigion;***

***Bleddyn Hopkins o CBS Caerffili yn cynrychioli Cymdeithas y***

***Cyfarwyddwyr Addysg yng Nghymru (ADEW);***

***Rob Blewitt, AALl Sir Gaerfyrddin.***

3.1 Cyfeiriodd Peter Tyndall sylw’r Pwyllgor at bapur 3 a rhoddodd gyflwyniad sleidiau byr. Mae copi ohono ynghlwm fel Atodiad 2. Pwysleisiodd fod AALlau yn ymroi i ddileu lleoedd dros ben pa le bynnag y mae hynny’n synhwyrol a phriodol. Yr oedd yna fodd bynnag rai anawsterau yn y ffordd y cyfrifir lleoedd dros ben. O dan y sleid â’r pennawd Cofrestru Mwy Agored tynnodd sylw at y ffordd yr oedd disgyblion ag anghenion addysgol arbennig (AAA) yn dylanwadu ar y nifer o leoedd heb eu llenwi a gyfrifir. Câi llawer mwy o ofod ei ganiatáu ar gyfer disgyblion â datganiadau anghenion arbennig pa un yr oedd angen hynny ai peidio, tra nad oedd unrhyw ofod ychwanegol yn cael ei ganiatáu yn y fformiwla ar gyfer disgyblion ag anabledd corfforol, mewn cadair olwyn efallai, nad oes ganddynt ddatganiad o’r fath. Nid oedd y fformiwla yn helpu ysgolion yn y cyswllt hwn ac yr oedd yn gymhlethdod ychwanegol wrth gyfrifo gofod. Gallai’r ffaith nad yw darpariaeth feithrin wedi’i chynnwys yn y fformiwla hefyd achosi anawsterau.

3.2 Tynnodd sylw at y ffaith y gallai dewis i rieni olygu bod y niferoedd ar gofrestr ysgolion amhoblogaidd yn disgyn, eu bod yn cael anawsterau gyda’u cyllideb ac yn wynebu dirywiad cynyddol sy’n peri bod nifer y lleoedd dros ben yn cynyddu. Byddai awdurdodau yn defnyddio’u cynlluniau trefniadaeth ysgolion, sy’n cynnwys asesiadau manwl o’r galw, a’r wybodaeth ddiweddaraf am nifer y lleoedd, fel dull systematig o ymdrin â newid. Byddent hefyd yn defnyddio eu cynlluniau rheoli asedau. Byddai’r naill a’r llall yn cyfrannu at broses effeithiol a heriol i ddarogan niferoedd yn synhwyrol ac mor gywir â phosibl.

3.3 Yr oedd yna enghreifftiau o arferion da yn cynnig cyfle i wneud defnydd amgen o leoedd dros ben e.e. cyfleoedd dysgu gydol oes, defnydd cymdeithasol a defnydd ar gyfer chwaraeon, ynghyd â llunio ffederasiynau o ysgolion. Ni fyddai'r opsiwn olaf hwn o reidrwydd yn arbed arian ond gallai fod yn ffordd o alluogi ysgolion gwledig bach i weithredu'n effeithiol. Dylai unrhyw ganllawiau newydd gyfeirio'n benodol at gymhorthion cynllunio a mabwysiadu'r arferion gorau.

3.4 Ymhlith y pwyntiau a godwyd yn ystod y drafodaeth yr oedd:

- yr angen i rannu arferion da rhwng AALlau a rhoi meini prawf ar waith mewn modd cyson;
- i rai rhieni, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, nid oedd dewis ysgol yn opsiwn mewn gwirionedd. Deilliai lleoedd dros ben yn rhannol o ddiboblogi ac yn rhannol o ddewis rhieni. A oedd dadl o blaid cyfyngu ar y dewis sydd ar gael;
- a ellid neu a ddylid rhoi cymorth pellach i ysgolion bach;
- a fyddai cryfhau dalgylchoedd yn help i ddatrys y broblem a geir mewn rhai ardaloedd trefol o ysgolion poblogaidd sy'n orlawn ochr yn ochr ag eraill sydd â lleoedd dros ben;
- dylai ysgolion lleol fod ar gyfer plant lleol gyda defnydd gan y gymuned leol yn gefn i hynny y tu allan i oriau ysgol; bydd hyn nid yn unig yn help iddynt oroesi ond yn help i gymunedau ffynnu;
- yr oedd materion gwahanol yn y fantol i ysgolion trefol ac ysgolion gwledig; a ellid ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau nodi enghreifftiau o arferion da yn y naill a'r llall;
- yr oedd yr angen i ddarparu ar wahân ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yn ychwanegu at fater defnyddio'r adeiladau ysgol sy'n bodoli'n barod yn effeithiol; ac
- a fu unrhyw ymchwil i ddefnydd cymunedol o ysgolion fel ffordd o warantu y byddai lleoedd sydd heb eu llenwi yn cael eu cadw.

3.5 Cytunai Peter Tyndall fod angen i egwyddorion cyson gael eu rhoi ar waith, gyda hyblygrwydd lleol. Cyfeiriodd at y 'grwpiau meincnodi' a sefydlwyd gan ADEW. Dywedodd Bleddyn Hopkins fod yna wyth grwp meincnodi ar draws Cymru, a bod lleoedd mewn ysgolion yn un o'r pynciau yr oeddynt yn edrych arnynt. Yr oeddynt yn edrych ar ddangosyddion perfformiad megis pa mor ddiweddar yw'r asesiadau o'r lleoedd sydd ar gael, pa mor gywir y mae'r awdurdodau yn darogan niferoedd disgyblion, nifer yr ysgolion sydd â lefel sylweddol o leoedd dros ben a nifer yr apeliadau derbyn (sy'n dangos y galw o du rhieni nad yw'n cael ei ateb) gyda golwg ar fesur perfformiad cymharol rhwng y 22 awdurdod addysg lleol.

3.6 Cadarnhaodd Roger Williams mai prin yw'r dewis o ysgolion i bob diben mewn ardaloedd gwledig, yn enwedig yn y sector uwchradd, ac ni fyddai hynny'n newid. Ar y lefel gynradd fodd bynnag yr roedd ysgolion yn aml yn nes at ei gilydd. Er nad yw'r pellterau rhwng pentrefi o'r fath yn fawr, yr oedd y gymuned yn uniaethu'n agos â hwy ac yr oedd cau yn bwnc emosiynol. Nid mater hawdd i AALlau oedd llunio rhagolygon, a chafwyd achosion lle'r oedd ysgolion newydd yn 'orlawn' ar eu diwrnod cyntaf. Tynnodd sylw at y ffaith bod yna saith ysgol uwchradd yng Ngheredigion a bod pump neu chwech o'r rheini yn fach yn ôl safonau'r Comisiwn Archwilio ond yr oedd eu canlyniadau perfformiad yn dda iawn, yn groes i'r farn a dderbynnir yn gyffredinol ynglyn â pherfformiad gwael ysgolion uwchradd llai.

3.7 Teimlai Peter Tyndall fod ardaloedd dalgylch yn gallu helpu i greu hunaniaeth gymunedol yn lleol. Fodd bynnag, os oedd ysgolion yn amhoblogaidd dangosai hynny fod angen mwy o fuddsoddiad mewn ysgolion ac i fynd i'r afael â materion ehangach amddifadedd cymdeithasol yn hytrach na chaniatáu i ysgolion gael eu gyrru i'r cyrion. Cydnabyddai'r Gweinidog y dewisiadau anodd sy'n wynebu ysgolion gwledig. Maent yn rhoi ffocws y mae mawr ei angen i gymunedau bach ac megis gydag ysgolion bach mewn ardaloedd trefol yr oedd yna fanteision cynhwysiant cymdeithasol i'w hystyried. Atgoffodd Rob Blewitt yr Aelodau fod ysgolion o fewn cymuned yn ased i'r gymuned honno. Yr oedd angen i awdurdodau ennyn cysylltiad gydag ysgolion â'u cymunedau er mwyn rhannu barn ynglyn â'r opsiynau ar gyfer y dyfodol, yn enwedig lle'r oedd yn rhaid i ysgolion ystyried defnyddiau amgen. Yr oedd ffederasiwn o ysgolion lleol yn opsiwn dilys. Awgrymodd y gallai awdurdodau drafod anghenion cymunedol gyda llyfrgelloedd lleol, awdurdodau iechyd a'r heddlu lleol. Cytunai Roger Wiliams y gellid gwneud defnydd da o ofod dros ben drwy ehangu'r ddarpariaeth feithrin ond nid oedd bob amser yn hawdd addasu adeiladau ysgol ar gyfer defnydd amgen gan oedolion oherwydd cyfyngiadau yn deillio o oedran a/neu gynllun yr adeiladau.

3.8 Nid oedd CLlLC wedi edrych yn benodol ar wahanol fodelau er mwyn darparu addysg cyfrwng Cymraeg, a allai wneud gwell defnydd o'r adeiladau presennol. Yr oedd gan awdurdodau unigol eu cynlluniau addysg Gymraeg eu hunain. Y disgwyl yw y dylid cryfhau'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ymateb i alw o du rhieni. Byddai'r ffordd o wneud hynny yn dibynnu ar bob ardal. Cadarnhaodd Peter Tyndall y byddai angen i bob AALl ystyried anghenion lleol. Nid oedd yn ymwybodol o unrhyw ymchwil i ddefnydd cymunedol o ysgolion fel cyfrwng i warantu bod lleoedd dros ben yn cael eu cadw ond yr oedd yn ymwybodol o'r problemau, gan gynnwys y cwestiwn sut y dylid cyllido adeiladau ysgol o'r fath. Awgrymodd Bleddyn Bowen y dylid edrych ar bosibiliadau amgen megis cyllid Amcan 1 lle'r oedd hyn yn cyfeirio at anghenion cymunedol.

**Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolion Bach**

***Mr Bill Goodhand, Cadeirydd.***

***Papur: ELL 2-00(p.4)***

4.1 Estynnodd y Cadeirydd groeso i Mr Goodhand a diolchodd iddo am wneud yr ymdrech sylweddol i ddod o Swydd Lincoln i rannu ei brofiad – a phrofiad ei Gymdeithas – gyda'r Pwyllgor a'r cyflwynwyr eraill. Cododd y Cadeirydd gwestiwn ynglyn â'r defnydd o'r gair Cenedlaethol yn nheitl y Gymdeithas gan fod hwn yn gorff i Gymru a Lloegr.

4.2 Sefydlwyd y Gymdeithas yn 1978 yn sgîl Adroddiadau Plowden a Gittins a awgrymai mai'r maint lleiaf y dylid ei dderbyn er mwyn cael ysgol gynradd effeithiol yw tri athro a 30 o ddisgyblion. Fodd bynnag, yr oedd ysgolion bach yn boblogaidd iawn gyda rhieni, yr oeddynt yn cynnal safonau, yn cynnig gwerth da ac addysg safonol. Yr oedd cau ysgolion yn annog teuluoedd i symud o ardaloedd gwledig ac, yn sgîl hynny, ceid bygythiad posibl i'r iaith a'r diwylliant. Yr oedd yna fodd bynnag nifer o bwyntiau pwysig y mae'n rhaid cadw llygad arnynt yn gyson

4. costau – mewn ysgolion bach yr oedd costau staffio cyn uched ag 80% a dyma'r gwariant pennaf;
4. cydweithredu rhwng ysgolion e.e. rhannu athrawon ac adnoddau eraill sy'n cynnig mwy o hyblygrwydd na ffederaleiddio;
4. defnyddiau amgen megis clybiau gwaith cartref, addysg oedolion a'r defnydd o gyfarpar TG; a
4. thrafnidiaeth ysgol – tueddai plant sy'n wynebu siwrnai hir i'r ysgol beidio â pherfformio cystal. Rhaid hefyd i'r costau trafnidiaeth gael eu talu, un ai gan deuluoedd neu gan yr AALl.

4.3 Rhybuddiodd Mr Goodhand yn erbyn ceisio cadw'n rhy agos at faint safonol lleiaf ar gyfer ysgolion. Gallai'r hyn sy'n ddichonol mewn un ardal e.e. 30 o ddisgyblion mewn ysgol fach yn Swydd Lincoln, fod lawn mor ddichonol â 57 o ddisgyblion yn Sir Benfro. Yn ei farn ef ysgolion gwledig oedd y buddsoddiad unigol pwysicaf.

4. Ymhlith y pwyntiau a godwyd yn ystod y drafodaeth yr oedd:

- gallai ysgolion bach gael effaith andwyol ar ddatblygiad proffesiynol athrawon, yn enwedig yn awr gan fod yna gwricwlwm ehangach iddynt ymdrin ag ef;
- gyda dim ond gofod cyfyngedig ar gael mewn ysgolion llai pa mor ddichonol fyddai clybiau gwaith cartref, myfyrwyr AB yn defnyddio cyfarpar TG ayb;
- pa mor nodweddiadol ymysg awdurdodau lleol oedd y modd y gweithredodd Dyfnaint a Gwlad yr Haf i chwilio am ddefnydd amgen i adeiladau ysgol;
- a oedd awdurdodau yn gyffredinol yn ceisio ffynonellau cyllid eraill er mwyn helpu i ddarparu ar gyfer defnydd amgen;
- beth oedd barn Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolion Bach ar elfen lwfans y pen y fformiwla cyllido;
- a oedd Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolion Bach wedi gwneud ymchwil i ddosbarthiadau cymysg eu hoedran;
- yr oedd y cwricwlwm yn parhau i ehangu a datblygu ac yr oedd yn rhaid wrth arbenigedd ymysg athrawon i gyflwyno addysg safonol;
- a allai athrawon sydd â dosbarthiadau cymysg eu hoedran sicrhau cystadleuaeth ddigonol, er enghraifft mewn chwaraeon a gweithgareddau eraill lle mae oed yn berthnasol;
- gallai profiad o'r awyrgylch cyfeillgar a chynnes mewn ysgol gynradd fach fod yn fantais a hefyd yn anfantais i ddisgyblion ar eu ffordd i ysgol uwchradd fawr; a
- sut byddai ysgolion yn rheoli'r newid beunyddiol o ddefnydd fel ysgol i ddefnydd cymunedol, a sut y câi adnoddau eu rheoli.

4.5 Dywedodd Mr Goodhand fod gofyn i ysgolion gwledig bach berfformio hyd at safon sy'n dderbyniol i rieni ar arolygwyr ysgolion; dibynnai eu llwyddiant i raddau helaeth ar ewyllys da ac ymdrechion y gymuned o fewn oriau ysgol a'r tu allan iddynt. Teimlai nad oedd pob awdurdod lleol mor benderfynol â Dyfnaint a Gwlad yr Haf i fynd ati'n ddygn i geisio defnydd cymunedol amgen. Efallai mai clybiau gwaith cartref a defnyddio adnoddau TGCh, gan fyfyrwyr addysg bellach er enghraifft, oedd y gweithgareddau mwyaf cyffredin. Yr oedd yn ymwybodol bod ystafelloedd wedi'u haddasu'n greadigol mewn rhai ysgolion i greu lle ar gyfer defnydd amgen. Yr oedd yn

ymwybodol bod ceisiadau wedi'u gwneud am Arian Loteri mewn rhai achosion; byddai gan rai awdurdodau swyddog sy'n gweithio ar ddim ond hynny.

4.6 Pan gyflwynwyd cyllido ar sail fformiwla yn gyntaf ofnai ysgolion bach na fyddai ganddynt ddigon o gyllid ond yr oedd y rhan fwyaf o awdurdodau wedi gwneud addasiadau i'r fformiwla er mwyn cynorthwyo ysgolion llai. Yn Swydd Lincoln, rhoddwyd grantiau bloc o £20,000 i bob ysgol gynradd i oresgyn y broblem. Dywedodd fod yna dystiolaeth oddi wrth Ofsted nad oedd dosbarthiadau oedran cymysg yn anfanteisiol i ddisgyblion. Cyn belled yn ôl â chyfnod yr arholiad 11+ yr oedd ysgolion bach yn gwneud yn dda. Yn arbennig, yr oedd gallu darllen y disgyblion iau mewn grwpiau oedran cymysg yn uwch nag mewn grwpiau un oedran, a châi hyn ei ategu ymysg brodyr a chwiorydd yn y cartref. Yr oedd yna hefyd lawer o fanteision cymdeithasol gan gynnwys cyfraddau absenoldeb is a llai o broblemau ymddygiad. Yr oedd y rhain yn nodweddion cryf mewn bywyd cymunedol.

4.7 Cyfeiriodd Mr Goodhand at ymchwil Ofsted fod cwricwla eang a chytbwys yn cael eu cyflwyno mewn ysgolion bach, bod athrawon yn ymateb i'r sialensiau a'u bod, yng nghyd-destun cefn gwlad, yn cydweithredu ag ysgolion cyfagos. Yr oedd yn llai sicr ynglyn â'r her gystadleuol i bobl ifanc. Wrth drosglwyddo o ysgolion cynradd teimlai fod disgyblion yn gallu trosglwyddo'u doniau unigol a'u hymdeimlad o hunan-dyb yn llwyddiannus i ysgol uwchradd lle bo'r priodweddau hyn yn cael eu nodi ac y gwelid gwerth ynddynt.

4.8 Cadarnhaodd Peter Tyndall fod awdurdodau lleol yn edrych fwyfwy ar ddefnydd cymunedol. Wrth i TGCh a chyfleusterau fideo gynadledda ymledu câi hyn ei annog a'i hwyluso. Yr oedd awdurdodau hefyd yn edrych ar fynediad i ysgolion i ystod dda o'r boblogaeth. Gobeithiai Roger Williams y gellid annog defnydd cymunedol; yr oedd yna lawer o botensial ond byddai'n rhaid ei reoli'n dda ac ni ddylid disgwyl bod y rôl hon i ddisgyn ar benaethiaid. Efallai mai'r consortia cymunedol dros addysg a hyfforddiant fyddai'r ffordd orau ymlaen, o dan gochl y Cyngor dros Addysg a Hyfforddiant.

**I gloi**

Diolchodd y Cadeirydd i'r cyflwynwyr am drafodaeth fuddiol iawn ar faes pwnc cymhleth. Câi'r cyflwyniadau llafar nesaf eu rhoi yng Nghastell Cyfarthfa ar 14eg Rhagfyr. Y rhai a wahoddwyd i fod yn bresennol oedd Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Awdurdodau Eglwysig yr Esgobaethau ac Estyn.